



Cardiff Students' Union  
Undeb Myfyrwyr Caerdydd

## Swyddog Etholedig Llawn Amswer Disgrifiad o'r Swydd

### Llywydd Undeb y Myfyrwyr

(Diwygiwyd a diweddarwyd Rhagfyr 2023)

Mae'r disgrifiad swydd hwn yn ddibynnol ar gymeradwyaeth drwy Strwythur Llywodraethu'r Undeb.

#### Diben y Swydd

1. Bydd Llywydd Undeb y Myfyrwyr yn:
  - i) Cyfrannu at gynrychiolaeth poblogaeth myfyrwyr Prifysgol Caerdydd ym mhob mater sy'n ymwneud â'u profiad prifysgol.
  - ii) Gweithredu fel prif gynrychiolydd myfyrwyr Undeb Myfyrwyr Caerdydd.
  - iii) Cyfrifol ar y cyd, fel Ymddiriedolwr, am arweinyddiaeth a datblygiad Undeb y Myfyrwyr a'i Gwmnïau Cysylltiedig, gan gynnwys cymhwyso ei Amcanion Elusennol.
  - iv) Cadeirio Bwrdd Ymddiriedolwyr Undeb y Myfyrwyr a Bwrdd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Undeb Caerdydd Cyfyngedig.
  - v) Arwain y tîm o Swyddogion Etholedig llawn amser.

#### Prif Gyfrifoldebau

2. Cyfrifoldebau Cyffredinol
  - i) Sicrhau bod ffocws y rôl yn cael ei ddylanwadu gan anghenion myfyrwyr.
  - ii) Ymgysylltu â myfyrwyr a'u cynrychioli ym mhob math o astudiaeth ym mhob rhan o gampws y Brifysgol.
  - iii) Cynllunio rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau myfyrwyr ar ddechrau eich cyfnod yn y rôl.
  - iv) Gweithio a chefnogi eich cydweithwyr wrth gytuno a gosod blaenoriaethau'r Undeb.

- v) Cyflawni rôl Ymddiriedolwr a Chyfarwyddwr yn effeithiol yn unol â safonau moesegol 'Egwyddorion Nolan' (saith egwyddor bywyd cyhoeddus) gan sicrhau eich bod yn gyfarwydd â'r egwyddorion hyn yn ystod eich hyfforddiant sefydlu.
- vi) Bod yn barod i dderbyn gweithredoedd gan Senedd y Myfyrwyr ac ymgysylltu'n gadarnhaol gyda'r broses graffu.
- vii) Dwyn Prifysgol Caerdydd i gyfrif am benderfyniadau a wneir sy'n effeithio ar fyfyrwyr, cynrychioli eu barn a lobïo am newid wrth eistedd ar bwyllgorau a gweithgorau'r Brifysgol.
- viii) Gweithio i gyflawni gweledigaeth strategol Undeb y Myfyrwyr.
- ix) Rhedeg a chymryd rhan mewn ymgyrchoedd a digwyddiadau allweddol eraill i fyfyrwyr ochr yn ochr â chydweithwyr, gan godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n effeithio ar fyfyrwyr.
- x) Cymryd rhan mewn paneli dethol a gwrandawiadau sy'n delio â'recristio a phenodiadau, disgyblaeth, cwynion, ac apeliadau staff yn ôl yr angen.
- xi) Cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol.

### 3. Cyfrifoldebau Penodol i'r Rôl

- i) Bod yn wyneb a'n llais ar gyfer Undeb y Myfyrwyr wrth ymgysylltu â'r Brifysgol a'r gymuned ehangach.
- ii) Arwain y tîm o Swyddogion Sabothol Etholedig a darparu cymorth o ddydd i ddydd a rheolaeth ar gyfer aelodau'r tîm.
- iii) Cadeirio Bwrdd Ymddiriedolwyr Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd (UMPC) a Bwrdd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Undeb Caerdydd Cyfyngedig (GUCC).
- iv) Gosod pleidlais yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac Ymddiriedolwyr i benderfynu ar unrhyw fater lle bod y bleidlais yn gyfartal.
- v) Bod yn wyneb cyhoeddus ar gyfer Undeb y Myfyrwyr wrth ymgysylltu â chymunedau a sefydliadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.
- vi) Cyfarfod yn rheolaidd ag Is-ganghellor y Brifysgol ac uwch aelodau o staff y Brifysgol er mwyn cynrychioli barn myfyrwyr.
- vii) Dyrannu cyllideb y Swyddogion Sabothol gyda chefnogaeth gan staff perthnasol.
- viii) Gweithio'n agos â Phrif Weithredwr Undeb y Myfyrwyr o ddydd i ddydd.
- ix) Arwain gwerthusiad blynyddol y Prif Weithredwr fel cadeirydd y grŵp gwerthuso.

- x) Gweithredu fel Ymddiriedolwr Prifysgol Caerdydd, gan eistedd fel aelod llawn ar Gyngor y Brifysgol.
- xi) Gweithredu fel y prif gyswllt gyda'r Brifysgol, UCM Cymru, UCM y DU a rhanddeiliaid a sefydliadau allweddol eraill.

#### 4. Gofal Cwsmeriaid

- i) Sicrhau bod disgwyliadau myfyrwyr a chwsmeriaid eraill yn cael eu bodloni a'u rhagori lle bo'n bosibl.
- ii) Sicrhau bod protocolau a pholisïau staff-fyfyrwyr yn cael eu glynu wrthynt a'u dilyn yn effeithiol.
- iii) Delio ag adborth cwsmeriaid mewn modd cwrtais, effeithlon ac amserol,

#### 5. Yr Amgylchedd

- i) Mae Undeb y Myfyrwyr wedi ymrwmo i leihau unrhyw effeithiau negyddol uniongyrchol neu anuniongyrchol y gallai ei weithrediadau busnes cael ar yr amgylchedd. Fel Ymddiriedolwr ac aelod o staff yr Undeb, dylai deiliad y swydd hyrwyddo a chyfrannu at yr ymrwymiad hwn a sicrhau bod y trefniadau sydd ar waith i fesur a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd yn cael eu dilyn.

#### 6. Iechyd a diogelwch

- i) Sicrhau bod yr asesiadau risg ar gyfer systemau ac arferion gwaith y Swyddfa Weithredol yn cael eu diweddarau a bod staff, contractwyr a rhanddeiliaid eraill yn eu deall. Cadw at bolisi Iechyd a Diogelwch yr Undeb a'r adrannau bob amser.
- ii) Sicrhau y cedwir at Bolisi Iechyd a Diogelwch yr Undeb bob amser.
- iii) Cynorthwyo wrth sicrhau iechyd a diogelwch myfyrwyr, cyflenwyr ac ymwelwyr yn holl adrannau Undeb y Myfyrwyr.
- iv) Rhoi gwybod i'r awdurdod perthnasol am unrhyw faterion Iechyd a Diogelwch sy'n codi.
- v) Gweithredu fel swyddog cymorth cyntaf, ar ôl cymhwyso.

#### 7. Dyletswyddau eraill

- i) Mynychu cyfarfodydd priodol yn ôl gofynion yr Undeb.

- ii) Cadw at Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu, polisïau a gweithdrefnau'r Undeb bob amser.
- iii) Cyfrannu at ddelwedd gadarnhaol yr Undeb gyda myfyrwyr, y Brifysgol a'r gymuned leol.
- iv) Bod yn arweinydd ac yn llysgennad am gydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth sy'n dileu rhwystrau i gydraddoldeb.
- v) Hyrwyddo safonau uchel o uniondeb a gonestrwydd sy'n ymgorffori gwerthoedd yr Undeb.
- vi) Cynnal a hyrwyddo gwerthoedd Undeb y Myfyrwyr, gan weithio tuag at ei weledigaeth strategol.
- vii) Ymgymryd â thasgau a chyfrifoldebau eraill sy'n gymesur â lefel a natur y swydd fel gall fod yn ofynnol gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Prif Swyddog Gweithredol o bryd i'w gilydd.

## **Cwmpas**

8. Mae'r disgrifiad swydd yma yn cynnwys y prif gyfrifoldebau sy'n ymwneud â'r swydd hon ac nid yw'n disgrifio'r holl dasgau sydd angen eu cyflawni yn fanwl. Mae disgwyliad y bydd deiliad y swydd yn cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill sy'n dod o fewn natur a lefel cyfrifoldeb cyffredinol y swydd.

## **Hyfforddiant a datblygiad proffesiynol**

9. Mae'r Undeb yn ystyried hyfforddiant a datblygiad rheolaidd a pharhaus yn hanfodol ar gyfer perfformiad a boddhad swydd. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant a datblygiad y gellir ei ystyried yn angenrheidiol cyn dechrau eu swydd ac yn ystod eu cyfnod yn y swydd.

## **Rheolaeth a Goruchwyliaeth**

10. Bydd y Llywydd yn arwain y tîm o Swyddogion Sabothol Etholedig ac yn darparu cymorth a rheolaeth o ddydd i ddydd i aelodau'r tîm. Bydd hyn yn cynnwys ymdrin â mân achosion o gamymddwyn yr ymdrinnir â hwy o dan drefniadau anffurfiol. Mewn achosion o'r fath bydd y Llywydd yn cael eu cynghori gan y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli Strategol mewn ymgynghoriad â Phennaeth Gweithrediadau AD.
11. Bydd y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli Strategol yn darparu cymorth a chynghori o ddydd i ddydd i'r Llywydd.
12. Ni fydd gan y Llywydd unrhyw gyfrifoldebau rheolwr llinell dros staff eraill. Fodd bynnag, fel Ymddiriedolwyr a Chyfarwyddwr bydd y Llywydd yn rhan o

benderfyniadau ar y cyd ar faterion staff yn ymwneud â thelerau ac amodau cyflogaeth, gwrandawiadau disgyblu a chwyno, apeliadau a recriwtio.

### Nodiadau ac Amodau Arbennig

13. Mae'n ofynnol fod gan ddeiliad y swydd agwedd wleidyddol niwtral a diduedd wrth gyflawni swyddogaethau'r rôl.
14. Mae'n ofynnol bod deiliad y swydd yn dangos parodrwydd a hyblygrwydd i amrywio a newid eu trefn arferol a gweithio y tu allan i oriau gwaith arferol - gyda'r nos ac ar benwythnosau lle bo angen a theithio i gyfarfodydd a chynadleddau rhanbarthol a chenedlaethol.
15. Man gwaith arferol deiliad y swydd fydd adeilad Undeb y Myfyrwyr ym Mhlas y Parc, Caerdydd, CF10 3QN, ond bydd gofyn iddynt deithio i leoliadau eraill a gweithio ohonynt wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd.
16. Er nad yw'r disgrifiad swydd yma yn rhan o gontract cyflogaeth deiliad y swydd, disgwylir i ddeiliad y swydd gydymffurfio â phob agwedd o'u contract fel y nodir yn eu Datganiad o Fanylion Cyflogaeth.
17. Wrth gyflawni eu rôl disgwylir i ddeiliad y swydd gydymffurfio'n llawn â pholisïau a gweithdrefnau cyflogaeth yr Undeb.



The heart of Cardiff student life  
Calon bywyd myfyrwyr Caerdydd